# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2017**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2017. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## ADRAN A (Darllen): 30 marc

Yn yr adran hon mae 5 darn darllen ar y thema ‘Gweithgareddau Awyr Agored’. Darllenwch bob un o’r darnau’n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

**Darn Darllen 1**

Gweithgareddau Awyr Agored

A1. Beth yw’r gweithgaredd awyr agored mwyaf poblogaidd yn ôl y siart? [1]

Cerdded

(Casglu Gwybodaeth)

✓ = 1

**Darn Darllen 2**

Gweithgareddau Awyr Agored: Budd Ariannol i Gymru

A2. Beth yw ystyr ‘Budd Ariannol i Gymru’? [1]

Rhowch ✓yn y blwch priodol.

Mae’n golygu:

bod gweithgareddau awyr agored yn dod ag arian i Gymru

(Dehongli ystyr)

A3. Nodwch a yw’r brawddegau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi yn barod. [2]

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Mae gweithgareddau awyr agored yn cyfrannu cyfanswm o £236 miliwn at economi Cymru bob blwyddyn. | | ✓ |
| Mae’r swm uchaf o arian yn cael ei wario gan ymwelwyr sy'n aros dros nos o weddill y Deyrnas Unedig. | ✓ | |
| Ymwelwyr sy’n dod am y dydd sy’n gwario’r swm lleiaf o arian. | | ✓ |

Un marc am bob ateb cywir.

(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**

Cip: Cylchgrawn yr Urdd

A4. Pa air yn y blwch isod sy'n golygu bod lagŵn Surf Snowdonia yn syniad hollol newydd? Tanlinellwch y **gair** cywir. [1]

| |
|---|
| arloesol |

(Dehongli ac adnabod geiriau)

✓ = 1

A5. Faint o bobl sydd wedi ymweld â Surf Snowdonia hyd yma? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

75,000

A6. Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓yn y golofn briodol. [3]

Un marc am bob dau ateb cywir (cael yr ateb a roddir fel man cychwyn).

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Ym mhentref Dolgarrog mae Surf Snowdonia. | ✓ | |
| Nid oes gan Surf Snowdonia le i bobl aros dros nos. | | ✓ |
| Mae Surf Snowdonia yn gobeithio rhoi'r siawns i bob math o bobl syrffio. | ✓ | |
| Mae Surf Snowdonia yn credu mai ychydig iawn o bobl all ddysgu syrffio. | | ✓ |
| Gwersi syrffio yw'r unig beth mae Surf Snowdonia yn ei gynnig. | | ✓ |
| Mae'r lagŵn yn mesur cymaint â chwe chwrt pêl-fasged. | | ✓ |

(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**

Dilyn Themâu Gemau Fideo yn y Goedwig

A7. Pam roedd James Kendall eisiau cael plant i wneud gweithgareddau awyr agored? [3]

- plant yn syllu ar sgrîn am ormod o amser
- plant heb ddiddordeb mewn byd natur
- eisiau cymryd eu sylw oddi ar y gemau
- dylanwad sgriniau'n bwerus
- teimlo'r angen i ddenu plant at fyd natur
- angen atgoffa plant bod gweithgareddau lu y gellir eu gwneud tu allan
- cael plant i fwynhau bod tu allan
- anhwylder diffyg natur yn broblem gynyddol
- natur yn dda i'r corff a'r meddwl
- dangos i blant eu bod yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain
- angen cydbwysedd
- awyrgylch bositif i blant
- gwneud ffrindiau
- gwneud arwyr go iawn o blant
- parhau i chwarae yn yr awyr iach

Elfen o ddehongli

- rhoi i blant y sgiliau i lwyddo mewn bywyd
- eisiau dangos i blant fod bod tu allan yn iachach na chwarae gemau cyfrifiadurol
- ddim eisiau iddynt stopio chwarae gemau'n llwyr - gweld gwerth addysgiadol technoleg
- creu plant annibynnol, cymdeithasol a hyderus

1 marc
Cyfeirio at ambell ffaith o'r darn darllen (1-3 ffaith)

2 farc
Cyfeirio'n eithaf manwl at y darn darllen (4 ffaith neu fwy)

3 marc
Cyfeirio at y darn darllen a dangos y gallu i ddehongli gwybodaeth (esbonio/rhesymu//dehongli)
(Dehongli a dadansoddi gwybodaeth)

A8. Beth yw'r peth gorau sydd wedi dod o'r prosiect yn ôl James Kendall? Dylech ateb yn eich geiriau eich hun. [1]

- cael gwybod bod plant sydd wedi bod yn y gweithgareddau yn dal ati i chwarae tu allan yn gwneud gweithgareddau amrywiol.

Rhaid aralleirio rywfaint wrth ateb.
(Casglu gwybodaeth)

✓ = 1

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**

Byd Rasio

A9. Sut berson yw Lowri Morgan? Dylech gyfeirio at y darn darllen i gefnogi'ch ateb. [6]

- Ffit – rhedeg rasys wltra
- Hoff o redeg – hoff atgofion yn ymwneud â rhedeg
- Diolchgar/mwynhau – braint cael rhedeg mewn gwledydd hardd
- Hoffi gwthio'i hun/cystadleuol/penderfynol - herio'i hun tu hwnt i ffiniau pobl eraill/ gweithio hyd eithaf ei gallu/dyfalbarhau ar ôl anaf/profi meddygon yn anghywir
- Gwylaidd - pobl eraill yn ei hysbrydoli/parchu eraill/cydnabod dylanwad ei mam a'i thad/ cydnabod cyngor ei mam/cydnabod nad hi yw'r cryfaf na'r cyflymaf
- Teulu'n bwysig - balch o'i rhieni
- Cryf - chwalu enaid a dod yn ôl o hynny/rhedeg 85-110 milltir yr wythnos
- Agwedd iach – gweld popeth yn antur/sialens yn ffordd o ddal ati
- Mwynhau sialens - gwthio'r corff a'r meddwl/ gweld pa mor bell y gall fynd
- Hunan ysgogiad - mwynhau/ddim yn gwneud ar gyfer y teledu
- Call- paratoi'n ofalus a thechnegau ymdopi ganddi
- Person cyflawn/diddordebau eang - hoff o gerddoriaeth ac amser gyda'r teulu/ hoffi chwaraeon eraill/cyflwynydd teledu
- Amyneddgar – gweithio'n galed i wella/peidio â brysio i gyrraedd y llinell derfyn mewn ras hir

1 marc
Ateb bras – un neu ddwy ffaith

2 farc
Sawl sylw perthnasol – tair neu bedair ffaith

3 marc
Manwl - llawer o ffeithiau

4 marc
Gwybodaeth fanwl a dechrau dehongli

5 marc
Gwybodaeth fanwl a dehongli da

6 marc
Gwybodaeth fanwl a dehongli aeddfed

(Dadansoddi a dehongli)

© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 2, 4 a 5**

A10. Beth yw manteision cynnal a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored? Dylech **ddefnyddio a chyfuno gwybodaeth o'r tri darn darllen yn unig.** [6]

DD2

- denu ymwelwyr
- cyfrannu at economi Cymru
- cynnal swyddi

DD4

- cynnig opsiwn gwahanol i dechnoleg
- cael plant allan yn yr awyr iach a mwynhau/hwyl
- rhoi hyder i blant
- dysgu sgiliau
- dod i adnabod plant eraill
- amgylchedd bositif
- dysgu am fyd natur
- diffyg natur yn creu problemau
- yn dda i'n corff a'n henaid
- gwella iechyd
- dangos i blant eu bod yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain
- profiadau byd real

DD5

- gallu gwneud gweithgareddau fel teulu
- eich gwneud yn benderfynol
- gosod her yn beth da
- mwynhau llefydd hardd
- gwthio ffiniau a chyrraedd nod/ llwyddo
- eich gwneud yn gryf
- dysgu amynedd
- dysgu llawer amdanoch eich hun

1 marc
Ateb bras – un neu ddwy ffaith
2 farc
Sawl sylw perthnasol – tair neu bedair ffaith
3 marc
Manwl - llawer o ffeithiau
4 marc
Gwybodaeth fanwl a dechrau dehongli
5 marc
Gwybodaeth fanwl a dehongli da
6 marc
Gwybodaeth fanwl a dehongli aeddfed
Tynnu un marc os na ddefnyddir gwybodaeth o fwy nag un darn darllen.
(Cyfuno)

© WJEC CBAC Cyf.

**A11. Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair cywir i lenwi'r bwlch drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Roedd Fflur yn *falch* o'r stori y cafodd wobr amdani yn eisteddfod yr ysgol.

(ii) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y diwedd sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]
Cafodd Sam ei hepgor o'r tîm pêl-droed…
gan ei fod wedi brifo'i goes.

(iii) Gosodwch y brawddegau canlynol mewn trefn: [3]

b

a

c

✓ = 1

[5]

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)**

B1. **Prawf ddarllen**

(i) Darllenwch y darn canlynol. Mae tri gwall ynddo. Chwiliwch am y **tri** gwall a chywirwch nhw ar y tabl sy'n dilyn y paragraff. ✓ = 1 [3]

Arhosais am fyn ffrindiau wrth ddrws y ysgol. Roedden nhw wedi gadael ei bagiau yn y ffreutur.

| Gwall | Cywiriad |
| --- | --- |
| fyn | fy |
| y ysgol | yr ysgol |
| ei | eu |

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir yn mynd [1]

(iii) Cywirwch y frawddeg ganlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell. [1]

Dydy / Dyw / Dydi hi ddim yn bwrw glaw / Nid yw hi'n bwrw glaw.

(Ddim yn derbyn 'Mae hi'n braf'. / Ddim yn derbyn berf mewn amser gwahanol)

✓ = 1 **[5]**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.